

Diwedd oes

Mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â'r hyn sy'n digwydd tuag at ddiwedd oes a sut i gynllunio ar ei gyfer.

Ceir esboniad o'r geiriau sydd wedi eu tanlinellu yn yr eirfa ar y diwedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn dweud wrthy ch pwy all helpu i ofalu amdanoch yn eich cartref. Mae'n egluro beth i'w ddisgwyl yn ystod wythnosau olaf bywyd. Mae ynddo hefyd wybodaeth i'ch perthnasau a'ch ffrindiau agos am beth i'w wneud ar ôl eich marwolaeth. Efallai yr hoffech chi ddarllen yr adran hon hefyd.

Efallai y bydd peth o'r wybodaeth hon yn peri gofid i chi ei darllen. Efallai byddwch am ofyn i berthynas agos, ffrind neu weithiwr iechyd proffesiynol ei darllen hefyd, fel y gallwch drafod yr wybodaeth gyda'ch gilydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, holwch eich meddyg neu nyrs.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych eisiau siarad â rhywun, gallwch ffonio Cefnogaeth Canser Macmillan ar **0808 808 00 00**, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 8pm. Mae gennym gyfieithwyr, felly gallwch siarad gyda ni yn eich iaith eich hun. Dywedwch wrthym, yn Saesneg, yr iaith rydych am ei defnyddio.

Mae gennym ragor o wybodaeth yn Gymraeg am wahanol fathau o ganser, triniaethau a byw gyda chanser. Ewch i macmillan.org.uk/translations neu ein ffonio ar **0808 808 00 00**.

Yn y daflen ffeithiau hon:

- Sut y gallwch fod yn teimlo
- Cynllunio ymlaen
- Pwy all ofalu amdanoch yn eich cartref
- Wythnosau olaf oes
- Dyddiau olaf oes
- Agosáu at farwolaeth
- Ar ôl marwolaeth
- Sut y gall Macmillan helpu
- Manylion cyswllt mudiadau defnyddiol
- Geirfa
- Mwy o wybodaeth yn Gymraeg

Sut y gallwch fod yn teimlo

Gall clywed y newyddion y gallwch fod yn dynesu at ddiwedd eich oes fod yn anodd iawn. Efallai eich bod yn gwybod eich bod yn dod yn fwy sâl, ond gall fod yn sioc o hyd i glywed nad oes gennych yn hir iawn i fyw. Efallai byddwch yn teimlo ei fod yn annheg. Efallai byddwch yn poeni am beth fydd yn digwydd nesaf. Efallai byddwch yn ddagreuol ac yn drist. Efallai na fyddwch yn gwybod sut i ymdopi gyda'r gwahanol deimladau hyn.

Mae rhai pobl yn ei chanfod yn help i siarad ynghylch sut maent yn teimlo. Gallech siarad â theulu neu ffrindiau, neu eich meddyg neu nyrs. Neu gallwch siarad ag arbenigwyr cefnogaeth canser Macmillan ar **0808 808 00 00**. Mae gennym gyfieithwyr.

Mae'n debyg y byddwch yn cael dyddiau pan fyddwch yn teimlo'n dda a dyddiau pan na fyddwch gystal. Ar ddiwrnodau pan fyddwch yn teimlo'n dda, efallai byddwch eisiau gwneud pethau rydych yn mwynhau neu dreulio amser gyda phobl. Neu efallai byddwch eisiau gwneud pethau pwysig eraill, fel gwneud ewyllys neu gynllunio eich angladd.

Crefydd ac ysbrydolrwydd

Tua diwedd eu hoes, bydd pobl yn aml yn dod yn fwy ymwybodol o gredoau crefyddol neu deimladau ysbrydol. Bydd hyn yn aml yn gysur i bobl sydd â ffydd grefyddol gref. Weithiau mae pobl yn cwestiynu eu ffydd ac os oes bywyd ar ôl marwolaeth. Gall hyn fod yn anodd iawn.

Gallai helpu siarad gydag arweinydd crefyddol. Gallwch wneud hyn hyd yn oed os nad ydych yn sicr am beth rydych yn ei gredu. Mae arweinwyr ysbrydol a chrefyddol wedi arfer helpu pobl trwy'r cyfnodau hyn ac efallai y cewch dawelwch meddwl.

Bydd rhai pobl yn cael cysur mewn gweddi neu fyfyrdod. Bydd llawer o bobl yn cael cysur drwy wybod bod pobl eraill yn gweddïo drostynt.

Cynllunio ymlaen

Gwneud ewyllys

Mae'n bwysig gwneud ewyllys. Dyma'r unig ffordd i sicrhau bod y rhai sy'n agos atoch yn gwybod eich dymuniadau ynghylch eich meddiannau ac eiddo.

Dogfen gyfreithiol yw eich ewyllys. Mae'n syniad da fel arfer i ddefnyddio cyfreithiwr pan fyddwch yn ysgrifennu eich ewyllys. Byddant yn sicrhau bod pawb yn deall beth rydych eisiau i ddigwydd. Os oes angen help arnoch i ddod o hyd i gyfreithiwr gallwch gysylltu â Chymdeithas y Cyfreithwyr (gweler tudalen 14).

Cynllunio eich angladd

Efallai byddwch eisiau cynllunio eich angladd. Gallwch feddwl am:

- os ydych am gael eich claddu neu amlosgi
- pa fath o wasanaeth rydych eisiau
- pa ganeuon yr hoffech
- pa ddillad rydych am wisgo.

Efallai byddwch eisiau siarad gyda'ch teulu neu ffrindiau ynghylch y cynlluniau hyn. Efallai y bydd ganddynt hwythau syniadau a fydd yn eu helpu i ffarwelio. Os oes yna bethau yr ydych am iddynt ddigwydd yn eich angladd, ysgrifennwch nhw i lawr, fel bod pobl yn gwybod.

Pwy all ofalu amdanoch yn eich cartref

Mae'n bwysig eich bod chi a'r rhai sy'n gofalu amdanoch â'r holl gefnogaeth rydych ei angen. Mae yna lawer o bobl a all eich helpu pan rydych yn eich cartref

Eich meddyg teulu

Tra rydych yn eich cartref, eich meddyg teulu sy'n gyfrifol am eich gofal meddygol. Gallant helpu os ydych:

- yn poeni am unrhyw newidiadau yn eich symptomau
- eisiau siarad am y dyfodol a'r hyn a allai ddigwydd
- angen cyngor am gael gofal nyrsio neu gymorth arall yn y cartref.

Nyrsys cymunedol

Mae nyrsys cymunedol yn gweithio'n agos gyda meddygon teulu. Gallant helpu gydag unrhyw symptomau sydd gennych. Gallant:

- roi meddyginiaeth i chi a newid rhwymynnau
- helpu eich gwneud yn fwy cyfforddus a threfnu offer os oes angen
- roi cyngor i'ch perthnasau neu ofalwyr ynghylch gofalu amdanoch
- gysylltu â phobl eraill a all helpu, fel gweithwyr cymdeithasol neu nyrsys arbenigol
- eich helpu i ymdopi gyda'ch teimladau.

Nyrsys Marie Curie

Mae Nyrsys Marie Curie yn gofalu am bobl sy'n dynesu at ddiwedd eu hoes. Maent yn ymweld â phobl yn eu cartref a gallant ddarparu gofal yn ystod y dydd neu dros nos. Mae hyn yn galluogi eich gofalwyr i gael seibiant neu i gael noson dda o gwsg.

Gall eich nyrs ardal neu feddyg teulu drefnu nyrs Marie Curie ar eich cyfer.

Timau gofal lliniarol

Mae'r rhain yn nyrsys a meddygon arbenigol. Maent yn cefnogi pobl a'u teuluoedd sy'n ymdopi â chanser neu salwch difrifol arall

Efallai bydd gennych dîm gofal lliniarol os oes gennych symptomau yr ydych angen help gyda nhw.

Timau hosbis

Mae gan rai hosbisau nyrsys a all helpu i ofalu amdanoch yn eich cartref. Fel arfer, mae hyn am yr ychydig wythnosau a dyddiau olaf bywyd. Gall eich tîm gofal lliniarol drefnu hyn i chi.

Gweithwyr cymdeithasol

Gall gweithwyr cymdeithasol drefnu help gyda gwaith tŷ a thasgau ymarferol eraill. Gallwch chi, eich meddyg neu nyrs gysylltu â gweithiwr cymdeithasol i ofyn am yr help hwn. Os gallwch ei fforddi, efallai bydd gofyn i chi dalu am ran ohono.

Therapyddion galwedigaethol

Gall therapyddion galwedigaethol ymweld â'ch cartref a darparu unrhyw offer rydych ei angen. Gallai hyn fod yn bethau fel:

- rheiliau i'ch helpu i symud o gwmpas
- offer ar gyfer eich cawod neu fath
- cwpanau a chyllyll a ffyrac arbennig i helpu gwneud bwyta'n haws.

Gall eich nyrs neu feddyg drefnu unrhyw un o'r gwasanaethau a ddisgrifiwyd uchod. Gallant hefyd ddweud wrthy'ch am help arall sydd ar gael yn lleol.

Wythnosau olaf oes

Yn ystod wythnosau olaf eich oes, efallai y sylwch ar rai o'r newidiadau canlynol.

Newidiadau emosiynol

Mae'n naturiol i chi deimlo'n bryderus pan ydych yn wynebu marwolaeth. Efallai byddwch yn teimlo'n flin. Mae rhai pobl yn dod yn drist ac yn mynd i'w cragen. Weithiau gall hyn fod oherwydd iselder. Os ydych yn meddwl eich bod yn isel, siaradwch gyda'ch meddyg.

Gall siarad â'ch teulu neu nyrs eich helpu i deimlo'n well. Mae'n well gan rai pobl siarad â rhywun nad ydynt yn ei adnabod, fel cwmsler. Gall eich meddyg neu nyrs drefnu hyn ar eich cyfer.

Newidiadau corfforol a symptomau

Blinder

Mae'n arferol i golli egni yn raddol a pheidio gallu gwneud gymaint. Efallai y bydd angen llawer o orffwys arnoch yn ystod y dydd. Gofynnwch am help gyda phethau sy'n eich blino, fel ymolchi a gwisgo. Gall eich nyrs neu feddyg ddweud wrthyhch am y gwasanaethau lleol a all helpu.

Os yw bwyta pryd yn eich gwneud yn flinedig, yn hytrach, ceisiwch fwyta ychydig yn rheolaidd.

Problemau cysgu

Mae rhai pobl yn ei chael yn anodd cysgu'n dda. Gall fod sawl rheswm am hyn. Efallai eich bod yn bryderus neu efallai y bydd gennych symptomau sy'n eich poeni.

Gall rhai meddyginiaethau eich cadw yn effro. Dywedwch wrth eich meddyg neu nyrs os nad ydych yn cysgu'n dda.

I'ch helpu i gysgu:

- pylwch y golau ac unrhyw sŵn
- sicrhewch nad ydych yn rhy boeth neu'n rhy oer
- yfwch ddiod gynnes cyn mynd i'r gwely, ond peidiwch ag yfed caffeine nac alcohol
- ceisiwch osgoi defnyddio teledu neu gyfrifiadur tuag awr cyn i chi fynd i'r gwely
- defnyddiwch CD neu DVD ymlacio, neu gwrandewch ar gerddoriaeth i'ch ymlacio

Os nad yw'r pethau hyn yn helpu, efallai bydd eich meddyg neu nyrs yn awgrymu tabledi cysgu am gyfnod byr.

Poen

Dywedwch wrth eich meddyg neu nyrs os ydych yn cael poen. Gallant eich helpu â hyn a rhoi poenladdwyr i chi os bydd eu hangen arnoch.

Mae sawl math gwahanol o boenladdwyr. Bydd eich meddyg neu nyrs yn penderfynu pa un sydd orau i chi.

Dylech ddilyn cyfarwyddiadau eich meddyg bob amser pan fyddwch yn cymryd poenladdwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio orau os byddwch yn eu cymryd ar adegau rheolaidd yn ystod y dydd.

Caiff poenladdwyr fel arfer eu rhoi fel tabledi, moddion hylifol, neu batshys sy'n cael eu glynu ar y croen. Os na allwch lyncu neu os ydych yn sâl, mae ffyrdd eraill y gallwch gael poenladdwyr.

Gall eich meddyg neu nyrs esbonio mwy am eich poenladdwyr.

Sgîl-efeithiau poenladdwyr

Gall poenladdwyr cryfach eich gwneud yn gysglyd, cyfogyd ac yn rhwym. Bydd y teimlad cysglyd yn peidio ar ôl ychydig ddyddiau fel arfer. Os ydych yn teimlo'n sâl, gallwch gael cyffuriau gwrth-salwch i helpu. Mae'r cyfog yn gwella ar ôl ychydig ddyddiau fel arfer. Mae rhwymedd yn gyffredin. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cymryd poenladdwyr cryf hefyd angen cymryd meddyginiaeth o'r enw moddion gweithio (laxative) i helpu gyda hyn. Gall eich meddyg neu nyrs ddweud mwy wrthych.

Lleihau poen

Efallai bydd rhai pethau syml y gallwch eu gwneud i leihau eich poen:

- Dod o hyd i'r ffordd orau i eistedd neu orwedd yn gyfforddus.
- Ceisiwch roi rhywbeth cynnes neu rywbeth oer ar yr ardal boenus
- Defnyddiwch dechnegau ymlacio fel anadlu dwfn neu fyfyrto
- Ceisiwch wrando ar gerddoriaeth neu wyllo ffilm i fynd â'ch meddwl

Teimlo'n sâl neu gyfogi

Os bydd hyn yn digwydd, gall eich meddyg neu nyrs roi cyffuriau gwrth-salwch i chi i helpu. Mae'n bwysig cymryd y feddyginiaeth yn rheolaidd i atal y salwch rhag dychwelyd. Gall eich meddyg neu nyrs ddweud mwy wrthych chi am hyn.

Os ydych yn teimlo'n sâl, rhowch gynnig ar y pethau hyn:

- te sinsir, cwrw sinsir neu fisgedi sinsir
- sipian diodydd byrlymog
- bwyta ychydig yn rheolaidd, yn hytrach na phryd mawr
- bwyta bwydydd sych, fel craceri
- bwyta bwyd cynnes neu oer, yn hytrach na bwyd poeth.

Colli pwysau neu golli eich archwaeth

Efallai na fyddwch eisiau bwyta os ydych yn teimlo'n sâl neu flinedig. Efallai byddwch yn colli pwysau, a all fod yn drallodus i chi â'ch perthnasau.

Fel yr aiff amser ymlaen, efallai na fyddwch eisiau bwyta. Ceisiwch fwyta ychydig yn amlach a chael byrbrydau. Dewiswch fwyd sydd â llawer o galoriau. Gall Meddyginiaethau a elwir yn steroidau weithiau helpu i wella eich archwaeth bwyd. Gall eich meddyg ddarparu'r rhain os gallant eich helpu.

Fel y byddwch yn nesáu at ddiwedd eich oes, efallai na fyddwch eisiau bwyta o gwbl. Peidiwch â gorfodi eich hun i fwyta. Bwytwch ychydig o bethau rydych yn eu mwynhau. Efallai bydd yn haws i chi yfed diodydd maethlon. Mae yna ddiodydd o'r enw Build Up® a Complian®. Gall eich meddyg neu nyrs gael y rhain i chi.

Rhwymedd

Bydd llawer o bobl yn mynd yn rhwym. Mae hyn yn digwydd am nad ydynt yn symud o gwmpas nac yn yfed a bwyta cymaint. Gall rhai meddyginiaethau hefyd achosi rhwymedd. Dywedwch wrth eich nyrs neu feddyg os ydych chi'n cael y broblem hon. Gallant roi meddyginiaeth gweithio'r corff i'ch helpu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn yfed digon o hylif.

Teimlo allan o wynt

Mae hyn yn gyffredin iawn a gall fod yn ddychrynlyd. Dywedwch wrth eich meddyg neu nyrs os ydych yn teimlo allan o wynt. Mae sawl ffordd y gallant eich helpu gyda'ch anadlu.

Gall eich nyrs ddangos i chi a'ch gofalwyr y ffordd orau o eistedd neu sefyll i helpu'ch anadlu. Eisteddwch i wneud tasgau fel ymolchi a gwisgo. Os ydych yn teimlo allan o wynt, defnyddiwch wyntyll oer i chwythu awel ar eich wyneb neu eisteddwch wrth ffenestr agored. Os oes angen i chi siarad â rhywun mewn ystafell arall, defnyddiwch fonitor baban neu gloch fel na fydd yn rhaid i chi weiddi neu godi.

Gall eich meddyg roi meddyginiaeth i chi i'ch helpu i anadlu. Gallwch hefyd gael hefyd ocsigen yn eich cartref os bydd angen

Problemau â'r geg

Efallai bydd gennych geg sych, byddwch yn cael briwiau neu haint. Gall rhai meddyginiaethau wneud y problemau hyn yn waeth. Dywedwch wrth eich nyrs neu feddyg os ydych chi'n cael problemau â'ch ceg fel y gallant eu trin.

Mae'n helpu i gadw'ch ceg yn lân. Glanhewch eich dannedd ddwywaith y dydd gyda phast dannedd fflworid (mae fflworid yn y rhan fwyaf ohonynt). Defnyddiwch frwsh dannedd babanod meddal os yw'ch ceg yn ddolurus. Os rhoddod eich meddyg olch ceg i chi, dilynwch eu cyfarwyddiadau ynghylch sut i'w ddefnyddio.

Gall helpu i osgoi caffin, alcohol neu ysmegu, gan y gall y rhain wneud eich ceg yn waeth. Os yw eich ceg yn sych, sipiwch ddŵr tonig, sugnwch dalpiau rhew neu gwm cnoi heb siwgr.

Rheoli symptomau anodd

Yn aml gellir trin eich symptomau gartref. Ond weithiau efallai bydd angen i chi fynd i hosbis neu ysbyty. Bydd eich nyrs neu feddyg yn siarad â chi am hyn. Cyn gynted ag y byddwch yn teimlo'n well, gallwch fynd adref unwaith eto.

Dyddiau olaf oes

Mae pobl yn cael profiadau gwahanol yn nyddiau olaf eu hoes. Gall fod yn anodd gwybod beth yn union fydd yn digwydd a phryd. Fel arfer byddwch yn mynd yn wan iawn yn raddol ac ni fydd gennych llawer o egni. Efallai y byddwch:

- yn ei chael yn anodd symud o gwmpas
- angen help mynd o'ch gwely i gadair
- gorfod treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod neu'r diwrnod cyfan yn y gwely
- yn colli diddordeb am yr hyn sy'n digwydd o'ch cwmpas
- yn cysgu llawer ac yn teimlo'n gysglyd pan fyddwch ar ddiun
- yn teimlo'n ddryslyd ac yn ansicr a ydych yn breuddwydio ai peidio.

Gofal corfforol

Byddwch angen mwy o ofal oddi wrth y rhai sy'n gofalu amdanoch. Os yw eich teulu angen help i ofalu amdanoch, gall eich nyrs drefnu hyn.

Efallai daw eich ceg â'ch gwefusau yn sych. Bydd angen eu gwlychu yn rheolaidd. Efallai bydd eich nyrs yn defnyddio swab i wneud hyn (tebyg i flaguryn cotwm). Gallant ddangos i'ch gofalwyr sut i'w defnyddio. Gallant hefyd roi balm ar eich gwefusau i'w hatal rhag cracio.

Bydd angen i'ch gofalwyr leithio eich croen a'ch helpu i symud yn rheolaidd. Bydd hyn yn atal eich croen rhag dod yn ddolurus. Gall y nyrsys ddangos i'ch gofalwyr sut mae eich gwneud yn gyfforddus pan na fyddwch yn gallu symud eich hun.

Mae'n bosibl y bydd llawer o amser pan na fydd angen gwneud dim i chi. Ar yr adegau hyn gallwch orwedd yn dawel a gall eich perthnasau a'ch ffrindiau eistedd gyda chi. Gadewch iddynt wybod a ydych chi eisiau siarad ynteu a hoffech gael amser ar eich pen eich hun. Efallai y byddwch eisiau gwrandao ar eich hoff gerddoriaeth am ychydig.

Symptomau

Weithiau efallai y bydd eich nyrs neu feddyg yn newid eich meddyginiaeth. Efallai y byddant yn stopio meddyginiaethau nad oes eu hangen arnoch bellach. Os byddwch yn datblygu symptomau newydd, efallai y byddwch yn dechrau meddyginiaeth newydd.

Os ydych yn cael problemau llyncu tabledi, gellir hefyd rhoi meddyginiaethau:

- trwy chwistrelliad
- trwy sticio clytiau ar y croen
- trwy syrinj sy'n sownd i bwmp bach.

Weithiau gall fod yn anodd cael meddyginiaeth yn sydyn yn ystod y nos neu ar benwythnosau. Efallai bydd eich meddyg neu nyrs yn gadael rhai gyda chi rhag ofn y byddwch eu hangen. Gelwir y rhain yn feddyginiaethau 'rhag ofn' ('just in case'). Pan fydd gennych feddyginiaethau 'rhag ofn' gartref, does dim oedi os ydych eu hangen.

Bydd rhai pobl yn datblygu'r symptomau isod. Nid ydych yn debygol o fod yn ymwybodol o'r symptomau hyn, gan y byddwch yn gysglyd.

Newidiadau yn eich anadlu

Gall hylif gasglu weithiau yn eich gwddf neu frest. Gall hyn wneud eich anadlu'n swnllyd ond ni fydd yn peri gofid i chi. Gall eich nyrsys eich helpu i ganfod ffyrdd o stopio'r hylif rhag cronni neu roi meddyginiaethau i chi i helpu.

Anesmwythder

Gall rhai pobl fod yn anesmwyth neu aflonydd. Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn bryderus. Gallwch gael meddyginiaeth i'ch helpu i ymlacio a chysgu. Gall cael aelod agos o'r teulu gyda chi helpu neu arweinydd crefyddol a all eistedd, siarad neu weddio â chi.

Newidiadau yn y bledren

Efallai na fyddwch yn gallu rheoli eich pledren. Gall eich nyrs gael gorchudd gwely arbennig a phadiau ar eich cyfer. Efallai y byddant yn rhoi tiwb yn eich pledren i ddraenio'r wrin i ffwrdd.

Os yw eich gofalwyr yn pryderu am eich symptomau dylent gysylltu â'ch meddyg teulu neu nyrs.

Agosáu at farwolaeth

Gall meddwl am farwolaeth fod yn frawychus. Mae'n arferol i boeni am beth fydd yn digwydd.

Efallai byddwch angen rhai pethau penodol wedi'u gwneud wrth i chi agosáu at farwolaeth. Gallai hyn gynnwys:

- darllen allan rhannau o lyfrau neu weddiau
- chwarae eich hoff gerddoriaeth
- bod yn dawel.

Efallai hefyd yr hoffech gael eich arweinydd ysbrydol neu grefyddol wrth eich ochr. Dywedwch wrth eich gofalwyr neu berthnasau beth yw eich dymuniad fel y gallant wneud yn siŵr ei fod yn digwydd.

Yr hyn sy'n digwydd

I lawer o bobl mae marw'n dawel iawn. Byddwch fel arfer yn syrthio i gwsg trwm ac yn canfod ei bod yn anodd deffro.

Fel arfer, rydych yn cysgu mor drwm, ni allwch ddeffro. Efallai y byddwch yn gallu clywed ac yn gwybod bod eich teulu a'r ffrindiau wrth eich ymyl. Bydd rhai pobl yn cael adegau pan fyddant yn effro ac yn gallu siarad, cyn mynd yn ôl i gwsg trwm.

Os ydych chi gartref a bod unrhyw beth yn digwydd sy'n peri pryder i'ch gofalwyr, dylent gysylltu â'ch nyrs neu feddyg teulu.

Wrth i chi agosáu at farwolaeth, bydd eich dwylo a'ch traed yn oeri. Efallai bydd eich gwefusau a'ch ewinedd yn troi ychydig yn las. Mae hyn yn normal. Efallai bydd eich anadlu hefyd yn newid, gan ddod yn arafach gyda bylchau hirach rhwng pob anadl. Yn y diwedd bydd eich anadlu'n gorffen yn gyfan gwbl.

Ar ôl marwolaeth

Mae'r adran hon wedi'i hysgrifennu ar gyfer eich perthnasau neu'ch gofalwyr, ond efallai yr hoffech chi ei darllen hefyd.

Mae pawb yn ymateb yn wahanol i farwolaeth. Ar y dechrau efallai y byddwch mewn sioc neu'n teimlo'n ddideimlad bron. Gallwch hefyd fod yn drist iawn neu'n flin. Neu efallai byddwch yn teimlo rhyddhad bod eich perthynas neu ffrind bellach yn gorffwys mewn heddd.

Os ydych yn dymuno, gallwch dreulio amser â'r sawl sydd wedi marw. Mae llawer o bobl yn hoffi eistedd a siarad neu afael llaw. Efallai yr hoffech gael perthynas neu ffrind yno i'ch cynnal. Gwnewch yr hyn sy'n teimlo'n iawn.

Cymerwch amser i wneud unrhyw draddodiadau sy'n bwysig i chi. Gallai hefyd helpu cael arweinydd ysbrydol neu grefyddol gyda chi ar yr amser hwn.

Yr hyn y bydd y meddyg teulu'n ei wneud

Os bydd y person wedi marw gartref, bydd angen i chi ddweud wrth eu meddyg teulu neu nyrs gymunedol. Byddant yn dod i'r tŷ i gadarnhau'r farwolaeth.

Os bydd y meddyg teulu yn dod, byddant yn rhoi tystysgrif marwolaeth i chi. Mae hyn yn cadarnhau'r farwolaeth. Byddant hefyd yn rhoi ffurflen o'r enw 'Hysbysiad i hysbyswr' ('Notice to informant') i chi. Bydd hon yn dweud wrthyich sut i gofrestru'r farwolaeth (gweler isod).

Os daw nyrs neu feddyg tu allan i oriau, byddant yn cadarnhau'r farwolaeth. Ond efallai bydd angen i chi gael y dystysgrif marwolaeth oddi wrth eich meddyg teulu y diwrnod canlynol.

Yr hyn y bydd y trefnydd angladdau'n ei wneud

Unwaith bydd y farwolaeth wedi'i chadarnhau, gallwch gysylltu gyda'r trefnydd angladdau. Maent ar gael 24 awr y dydd. Gallant ddweud wrthyh beth i'w wneud nesaf. Gallwch ddod o hyd i drefnwyr angladdau yn eich llyfr ffôn lleol neu ar y rhyngrwyd.

Bydd y trefnydd angladdau'n dod cyn gynted ag ydych yn dymuno. Byddant yn gofalu am gorff eich perthynas neu ffrind. Gallwch ddweud wrth y trefnydd angladdau sut yr hoffech iddyn nhw wneud hyn ac os oes unrhyw draddodiadau i'w dilyn.

Byddant yn mynd â chorff eich perthynas i'r capel gorffwys yn y cartref angladdau. Gallwch ymweld â'r capel i fod gyda chorff eich perthynas os dyna yw eich dymuniad. Dywedwch wrth y trefnydd angladdau os byddai'n well gennych gael corff eich perthynas gartref tan yr angladd. Bydd y trefnydd angladdau hefyd yn gofyn i chi pa ddrillad yr hoffech chi iddynt eu gwisgo.

Cofrestru'r farwolaeth

Cyn y gellir cynnal yr angladd, bydd angen i chi gofrestru'r farwolaeth yn eich swyddfa gofrestru leol. Rhaid gwneud hyn o fewn pum niwrnod (neu wyth diwrnod yn yr Alban). Gallwch hefyd ddod o hyd i fanylion eich swyddfa gofrestru leol yn y llyfr ffôn. Mae'n bosibl y byddant hefyd wedi eu hysgrifennu ar yr amlen sy'n cynnwys y dystysgrif marwolaeth. Ffoniwch y swyddfa gofrestru cyn mynd i gofrestru'r farwolaeth. Efallai bydd angen i chi wneud apwyntiad. Gallwch hefyd ymweld â gov.uk/register-a-death am fwy o wybodaeth.

Cynllunio'r angladd

Efallai y bydd eich perthynas neu ffrind wedi dweud wrthyh beth maent eisiau ar gyfer eu hangladd neu wedi eu hysgrifennu i lawr. Mewn rhai diwylliannau a chrefyddau mae'n bwysig cael yr angladd yn fuan ar ôl y farwolaeth. Dywedwch wrth y trefnydd angladdau os oes angen i hyn ddigwydd.

Bydd y trefnydd angladdau yn eich helpu i drefnu'r angladd. Gallwch gael help hefyd gan arweinydd crefyddol neu ysbrydol. Os nad oedd eich perthynas neu ffrind wedi gadael unrhyw fanylion am eu dymuniadau, bydd y trefnydd angladdau'n eich arwain drwy'r camau o drefnu'r angladd.

Sut gallai galar wneud i chi deimlo

Mae galar yn arferol ar ôl marwolaeth rhywun oedd yn agos atoch. Efallai y teimlwch yn ddideimlad, yn gwadu, yn flin neu'n euog. Efallai y teimlwch hiraeth am y person, neu deimlo'n isel. Er bod y teimladau hyn yn gallu bod yn gryf iawn ar y dechrau, byddant yn cilio'n raddol.

Mae siarad am eich teimladau'n gallu bod yn help. Efallai byddwch eisiau siarad gyda'ch teulu neu ffrindiau agos. Gall yr elusen Cruse Bereavement Care hefyd gynnig cefnogaeth - gweler tudalen 13.

Dywedwch wrth eich meddyg teulu os ydych chi'n cael anhawster dygymod â'ch teimladau. Efallai byddant yn gallu helpu. Gallant hefyd eich cyfeirio at gefnogaeth arall, er enghraifft cwnsler. Mae llawer o bobl yn canfod siarad gyda chwmsler yn help.

Sut y gall Macmillan helpu

Mae Macmillan yma i'ch helpu chi a'ch teulu. Gallwch gael cefnogaeth gan:

- **Linell Gefnogaeth Macmillan (0808 808 00 00)**. Mae gennym gyfieithwyr, felly gallwch siarad gyda ni yn eich iaith. Dywedwch wrthym, yn Saesneg, yr iaith rydych am ei defnyddio. Gallwn ateb cwestiynau meddygol, roi gwybodaeth am gefnogaeth ariannol neu siarad gyda chi am eich teimladau. Mae'r llinell ffôn ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 8pm.
- **Gwefan Macmillan (macmillan.org.uk)**. Mae gan ein safle lawer o wybodaeth Saesneg am ganser a byw gyda chanser. Mae mwy o wybodaeth mewn ieithoedd eraill yn macmillan.org.uk/translations
- **Canolfannau gwybodaeth**. Yn y ganolfan wybodaeth, gallwch siarad gydag arbenigwr canser a chael gwybodaeth ysgrifenedig. Chwiliwch am eich canolfan agosaf yn **macmillan.org.uk/informationcentres** neu ffoniwch ni. Efallai y bydd gan eich ysbyty ganolfan.
- **Grwpiau cefnogaeth lleol** – Chwiliwch am grŵp yn eich ardal chi ar **macmillan.org.uk/supportgroups** neu ffoniwch ni.
- **Cymuned Ar-lein Macmillan** – Gallwch siarad gyda phobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg ar **macmillan.org.uk/community**

Manylion cyswllt mudiadau defnyddiol

Gofal ar ddiwedd oes:

Marie Curie

Ffôn 0800 090 2309 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am tan 6pm, dydd Sadwrn, 11am tan 5pm)

E-bost supporter.services@mariecurie.org.uk

www.mariecurie.org.uk

Mae nyrsys Marie Curie yn darparu gofal am ddim i bobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes. Gallant ofalu amdanoch yn eich cartref neu mewn hosbis. Gallant ddarparu gofal yn y nos hefyd.

Cwmsela a chefnogaeth emosiynol

It's Good to Talk (British Association for Counselling and Psychotherapy)

Rhif ffôn 01455 883 300

E-bost bacp@bacp.co.uk

www.itsgoodtotalk.org.uk

Gallwch chwilio am gwmsler ar y wefan a darllen am therapi a sut y gall helpu.

Cymorth i ofalwyr:

Carers UK

Ffôn (Lloegr, Yr Alban, Cymru) 0808 808 7777

Ffôn (Gogledd Iwerddon) 028 9043 9843

(Mer-lau, 10am–12pm a 2–4pm)

E-bost advice@carersuk.org

www.carersuk.org

Yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr ar draws y DU. Gallant eich rhoi mewn cysylltiad â grwpiau cymorth ar gyfer gofalwyr yn eich ardal.

Cefnogaeth pan fo rhywun yn marw:

Cruse Bereavement Care

Ffôn 0808 808 1677 (dydd Llun a dydd Gwener, 9.30am tan 5pm, dydd Mawrth a dydd Iau, 9.30am tan 8pm)

E-bost: helpline@cruse.org.uk

www.cruse.bereavementcare.org.uk

Mae canghennau ar draws y DU lle gallwch gael cefnogaeth os yw rhywun roeddech yn caru wedi marw. Gallwch ddod o hyd i'ch cangen leol yn

www.cruse.org.uk/cruse-areas-and-branches

Dod o hyd i gyfreithiwr;

Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr

Ffôn 020 7242 1222

www.lawsociety.org.uk

Yn cynrychioli cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a gall ddarparu manylion cyfreithwyr.

The Law Society of Scotland

Ffôn 0131 226 7411

www.lawscot.org.uk

Yn cynrychioli cyfreithwyr yn yr Alban a gall ddarparu manylion cyfreithwyr.

The Law Society of Northern Ireland

Ffôn 028 9023 1614

www.lawsoc-ni.org

Yn cynrychioli cyfreithwyr yng Ngogledd Iwerddon a gall ddarparu manylion cyfreithwyr.

Geirfa

Bladder	[Bla-dyr]	Pledren	Yr organ yn eich corff sy'n storio wrin nes i chi fynd i'r toiled.
Calories	[Cal-or-îs]	Calorïau	Mae calorïau yn unedau o egni sydd wedi eu storio mewn bwyd. Mae'ch corff angen egni o fwyd i weithredu.
Chapel of rest	[Tsi-ap-yl of rest]	Capel gorffwys	Y man lle caiff corff rhywun ei gadw tan eu hangladd.
Constipation	[Con-sti-pe-shyn]	Rhwymedd	Pan mae'n anodd neu'n boenus i gael pŵ. Efallai na fyddwch yn mynd mor aml, neu efallai bod eich pŵ yn galed a lympiog.
Counsellor	[Cown-sy-lyr]	Cwmsler	Gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi i helpu pobl ymdopi gyda'u hemosiynau neu broblemau personol.
Fluoride	[Fflô-raid]	Fflworid	Mwyn naturiol a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o bast dannedd.
Funeral director	[Ffiw-ny-ral Dai-rec-tyr]	Trefnydd angladdau –Cartref angladdau	Person sy'n trefnu angladdau. Maent hefyd yn gofalu am gorff y person cyn yr angladd ac yn darparu cefnogaeth i'r teulu.
Funeral home	[Ffiw-ny-ral Howm}	Galar	Yr adeilad lle caiff corff person ei baratoi ar gyfer yr angladd. Mae'r capel gorffwys tu mewn i'r cartref angladdau.
Grief	[Grîff]	Swyddfa Gofrestru	Galar yw sut y teimlwch pan fo rhywun yn marw. Mae'n wahanol i bawb.
Register office	[Rej-is-tyr off-is]	Cyfreithiwr	Adeilad llywodraeth leol lle caiff genedigaethau, priodasau a marwolaethau eu cofnodi.
Solicitor	[So-li-si-tyr]	Pledren	Gweithiwr cyfreithiol proffesiynol wedi'i hyfforddi i helpu pobl ysgrifennu eu hewylllys.

Mwy o wybodaeth yn Gymraeg

Mae gennym wybodaeth yn Gymraeg am y pynciau hyn:

<p>Mathau o ganser</p> <ul style="list-style-type: none">• Canser y fron• Canser y coluddyn mawr• Canser yr ysgyfaint• Canser y brostad <p>Triniaethau</p> <ul style="list-style-type: none">• Cemotherapi• Radiotherapi• Llawdriniaeth	<p>Ymdopi â chanser</p> <ul style="list-style-type: none">• Os cewch ddiagnosis o ganser - Canllaw cyflym• Hawlio budd-daliadau• Problemau bwyta a chanser• Diwedd oes• Bwyta'n iach• Blinder gyda chanser• Sgîl-ffeithiau triniaeth canser• Yr hyn y gallwch ei wneud i helpu'ch hun
--	---

I weld yr wybodaeth hon, ewch i macmillan.org.uk/translations

Siaradwch â ni yn Gymraeg

Gallwch ffonio Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** a siarad â ni yn eich iaith eich hun trwy gyfieithydd. Gallwch siarad â ni am eich pryderon a'ch cwestiynau meddygol. Dywedwch wrthym, yn Saesneg, yr iaith rydych am ei defnyddio.

Rydyn ni ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 8pm.

Cyfeiriadau a diolchiadau

Mae'r holl wybodaeth yma wedi ei hysgrifennu a'i golygu gan dîm Datblygu Gwybodaeth Canser Cymorth Canser Macmillan.

Mae'r wybodaeth yn y ddalen ffeithiau hon yn seiliedig ar lyfryn Macmillan **Diwedd Oes**. Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gyda Marie Curie. Gallwn anfon copi i chi, ond mae'r llyfryn llawn ar gael yn Saesneg yn unig.

Mae'r wybodaeth hon wedi ei hadolygu gan arbenigwyr perthnasol a'i chymeradwyo gan ein Prif Olygydd Meddygol, Dr Tim Iveson, Oncolegydd Meddygol Ymgynghorol Macmillan.

Gyda diolch i Kirsty Clayton, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio yn Hosbis Myton, a Dr Anna-Marie Stevens, Ymgynghorydd Nyrsio Macmillan. Diolch hefyd i'r bobl sydd wedi eu heffeithio gan ganser a adolygodd y rhifyn hwn.

Mae'n holl wybodaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Am ragor o wybodaeth am y ffynonellau a ddefnyddiwn, cysylltwch â ni yn **bookletfeedback@macmillan.org.uk**

MAC14363



Cynnwys wedi ei adolygu: Ionawr 2017

Adolygiad arfaethedig nesaf: 2018

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir gennym yn gywir, ond ni ddylid dibynnu arni i adlewyrchu cyflwr presennol ymchwil feddygol, sy'n newid o hyd. Os ydych chi'n poeni am eich iechyd, siaradwch â'ch meddyg. Ni all Macmillan fod yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o unrhyw gamgymeriad yn y wybodaeth hon na gwybodaeth trydydd parti, fel gwybodaeth ar wefannau rydym yn rhoi dolenni atynt.

© Cymorth Canser Macmillan 2016. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Swyddfa gofrestredig 89 Albert Embankment, Llundain, SE1 7UQ.

MAC14363

End of life

This fact sheet is about what happens towards the end of life and how to plan for it.

Any words that are underlined are explained in the glossary at the end.

